



Disgrifiad Swydd

TEITL Y SWYDD: NYRS PRACTIS

ADRODD I : NYRS REOLWR / Y PARTNERIAID (yn glinigol)

RHEOLWR Y PRACTIS: (Yn weinyddol)

Crynodeb o'r swydd:

Darparu a chynnal gofal nyrsio o safon uchel i gleifion, yn ogystal â darparu cymorth nyrsio i'r meddygon ac aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd cychwynnol. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys yr holl dasgau a wneir fel arfer gan RGN profiadol ac unrhyw rolau ychwanegol y cytunwyd arnynt rhwng y nyrs a'r meddygon fel y bo'n briodol, gan ystyried hyfforddiant cyfredol.

Gwella iechyd, lles a boddhad cleifion (a'u teuluoedd) sydd â chlefydau cronig a chymhleth; a darparu asesiad parhaus, monitro ac ailwerthuso anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Cyfrifoldebau'r swydd:

Proffesiynol

- Cynnig cyngor ar frechiadau plentyndod ac oedolion a sicrhau bod brechlynnau'n cael eu gweinyddu o dan gyfarwyddiadau grwpiau cleifion.
- Rhedeg clinigau personau iach a rhaglenni hybu iechyd, hwyluso newid trwy ddarparu asesiad cyfannol a chynghor ar ffordd o fyw, sef ar ddeiet, ysmygu, yfed alcohol ac ymarfer corff.
- Asesu problemau sy'n cael eu cyflwyno ar hap gan gleifion, delio â mân anhwylderau.
- Yn gallu dogfennu Ymgynghoriadau yn unol â chanllawiau'r NMC
- Sicrhau ymwybyddiaeth o weithdrefnau diogelu clinigol statudol a lleol, gan gynnwys systemau cyfeirio. Y gallu i adnabod arwyddion a symptomau cam-drin plant.
- Perfformio asesiad cyfannol o gleifion sy'n mynychu ar gyfer dyfrhau'r glust.
- Perfformio asesiad cyfannol o gleifion sy'n mynychu ar gyfer profion ceg y groth.
- Tynnu gwaed yn unol â chanllawiau lleol.
- Darparu dull cyfannol o reoli clwyfau a gweithredu gofal clwyfau yn unol â chanllawiau cyfredol ar sail tystiolaeth.

- Tynnu pwythau.
- Cymryd ECGs.
- Yn gallu adnabod a rheoli anaffylaxis yn unol â chanllawiau cyfredol y DU.
- Yn gallu perfformio adfywio'r galon a'r ysgyfaint (cardio-pulmonary) yn unol â chanllawiau cyfredol y DU
- Cynorthwyo i ddarparu mân lawdriniaethau.
- Y gallu i gael a chofnodi cydsyniad gwybodus (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig)
- Sicrhau bod canllawiau rheoli heintiau yn cael eu cynnal.
- Y gallu i fonitro a rheoli cynnal a chadw stoc ac offer i gynnwys offer rhewiddio, sterileiddio ac argyfwng.
- Cadw'r wybodaeth a geir yn y gwaith yn gyfrinachol bob amser.

Rheolaethol

- Cyfrannu at asesu anghenion gwasanaeth.
- Cynorthwyo cleifion i adnabod eu hanghenion iechyd.
- Cyfrannu safbwynt nyrsio at gynllun datblygu'r practis.
- Rheoli a threfnu ymgynghoriadau cleifion unigol.
- Bod yn ymwybodol o weithdrefnau adnabod ac adrodd sy'n ymwneud â safonau proffesiynol
- Mynychu cyfarfodydd staff.
- Sicrhau cysylltiadau a chyfathrebu effeithiol gyda'r PHCT ac asiantaethau eraill.
- Cefnogi agenda llywodraethu clinigol y Practis.
- Nodi newidiadau i ymarfer clinigol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu canllawiau ar sail tystiolaeth

Addysgol

- Adnabod anghenion datblygu a hyfforddi personol ar y cyd â'r rheolwr.
- Cymryd rhan mewn goruchwyliaeth glinigol.
- Cefnogi eraill gyda'u anghenion hyfforddi a datblygu.
- Cymryd rhan mewn addysg barhaus a chynnal lefel gyfoes o wybodaeth a sgiliau proffesiynol.

Personél

- Cynnal cysylltiadau diwydiannol da.
- Cymryd gofal rhesymol o'i dd/diogelwch ei hun a diogelwch pobl eraill y gallai ei g/weithred neu ei h/esgeulustra effeithio arnynt.
- Cydweithio â'r practis i sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn cydymffurfio â rheoliadau / polisiau a chodau ymarfer statudol a rheolau diogelwch adrannau.
- Cynnig ffyrdd arloesol o weithio a chyfleoedd i hwyluso dysgu.
- Hwyluso amgylchedd dysgu o fewn y tîm.
- Yn cynnal amgylchedd gofalgarn trwy gefnogaeth cydweithwyr.

Cyfrinachedd

- Wrth geisio triniaeth, mae cleifion yn ymddiried ynom ni, neu'n caniatáu i ni gasglu, gwybodaeth sensitif mewn perthynas â'u hiechyd a materion eraill. Maent yn gwneud hynny'n gyfrinachol ac mae ganddynt yr hawl i ddisgwyl y bydd staff yn parchu eu preifatrwydd ac yn gweithredu'n briodol.
- Wrth gyflawni'r dyletswyddau a amlinellir yn y disgrifiad swydd hwn, efallai y bydd gan ddeiliad y swydd fynediad at wybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â chleifion a'u gofalwyr, staff practis a gweithwyr gofal iechyd eraill. Efallai hefyd y bydd ganddynt fynediad i wybodaeth yn ymwneud â'r practis fel sefydliad busnes. Mae pob gwybodaeth o'r fath o unrhyw ffynhonnell i'w hystyried yn gwbl gyfrinachol.
- Dim ond i unigolion awdurdodedig y gellir datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â chleifion, gofalwyr, cydweithwyr, gweithwyr gofal iechyd eraill neu fusnes y practis yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r practis sy'n ymwneud â chyfrinachedd ac amddiffyn data personol a sensitif.

Iechyd a Diogelwch

Bydd deiliad y swydd yn gweithredu ac yn arwain ar ystod lawn o hyrwyddiadau. Byddant yn rheoli iechyd a diogelwch, a rheoli heintiau eu hunain ac eraill fel y'u diffinnir ym mholisi Iechyd a Diogelwch yr ymarfer, llawlyfr Iechyd a Diogelwch y practis, polisi Rheoli Heintiau y practis a gweithdrefnau cyhoeddedig eraill. Bydd hyn yn cynnwys (ond ni fydd yn gyfyngedig i):

- Defnyddio systemau diogelwch personol yn y gweithle yn unol â chanllawiau ymarfer.
- Ymwybyddiaeth o safonau cenedlaethol rheoli heintiau a glendid a gofynion rheoleiddiol / cytundebol / proffesiynol, a chanllawiau arfer da.
- Yn gyfrifol am reoli proses y sbesimenau yn gywir ac yn ddiogel gan gynnwys casglu, labelu, trin, defnyddio cynwysyddion cywir a glân, trefniadau storio a chludo.
- Rheoli a chynnal Offer Amddiffyn Personol (PPE) ar gyfer y practis gan gynnwys darpariaeth, archebu, argaeledd a defnydd cywir parhaus gan staff.
- Yn gyfrifol am hylendid dwylo ar draws y practis.
- Perchnogaeth ar reoli heintiau a phrotocolau gofal cleifion clinigol seiliedig, a gweithredu'r protocolau hynny ar draws y practis.
- Arsylwi gweithredol o arferion gwaith cyfredol ar draws y practis mewn perthynas â rheoli heintiau, glendid a gweithgareddau cysylltiedig, sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn a bod gwendidau / anghenion hyfforddi yn cael eu hadnabod a uwchgyfeirio materion pan fo'n briodol.
- Nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwaith ac ymgymryd â gweithgareddau o'r fath mewn ffordd sy'n rheoli'r risgiau hynny ar draws y broses glinigol a chleifion.

- Gwneud defnydd effeithiol o hyfforddiant i ddiweddarau gwybodaeth a sgiliau, a chychwyn a rheoli hyfforddiant pobl eraill ar draws yr ystod lawn o reoli heintiau a phrosesau cleifion.
- Monitro cyfleusterau ac offer y practis mewn perthynas â rheoli heintiau, gan sicrhau bod darpariaeth cyfleusterau glanhau dwylo, cadachau ac ati yn ddigonol i sicrhau amgylchedd gwaith clinigol da. Diffyg cyfleusterau i'w huwchgyfeirio fel y bo'n briodol.
- Rheoli gweithdrefnau cyfarpar miniog yn ddiogel gan gynnwys hyfforddiant, defnydd, storio a gwaredu.
- Defnyddio gweithdrefnau rheoli heintiau priodol, cynnal ardaloedd gwaith mewn ffordd daclus, lân a di-haint, a diogel, heb unrhyw beryglon. Cychwyn gweithredu adferol / cywirol lle bo angen neu uwchgyfeirio i reolaeth gyfrifol.
- Nodi, adrodd, a chywiro peryglon iechyd a diogelwch a pheryglon heintiau ar unwaith wrth eu cydnabod.
- Cadw manau gwaith y'ch hunan a manau cyffredinol / cleifion yn lân, yn ddi-haint, gan nodi materion a pheryglon / risgiau mewn perthynas â meysydd gwaith eraill o fewn y busnes, ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal safonau glendid cyffredinol ar draws y busnes (lle bo'n briodol)) trwy ymgynghoriad a rheolwyr sector eraill.
- Ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau o dro i dro (lleiafswm o ddwywaith y flwyddyn).
- Cadw trefn yn rheolaidd o'ch tîm/ardaloedd tîm , a chynnal safonau gofod gwaith.
- Rheoli gwastraff gan gynnwys casglu, trin, gwahanu, rheoli cynhwysyddion, storio a chasglu.
- Gweithdrefnau rheoli gollyngiadau, rheolaeth a hyfforddiant.
- Gweithdrefnau rheoli dadheintio, rheoli a hyfforddi, a chynnal a chadw offer.
- Cynnal amgylcheddau di-haint.
- Dangos sylw dyledus i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth:

Bydd deiliad y swydd yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion, gofalwyr a chydweithwyr, i gynnwys:

- Gweithredu mewn ffordd sy'n cydnabod pwysigrwydd hawliau pobl, gan eu dehongli mewn ffordd sy'n gyson â gweithdrefnau a pholisïau'r practis, a deddfwriaeth gyfredol.
- Parchu preifatrwydd, urddas, anghenion a chredoau cleifion, gofalwyr a chydweithwyr.
- Ymddwyn mewn modd sy'n groesawgar i ac o'r unigolyn, yn anfeirniadol ac yn parchu ei amgylchiadau, ei th/deimladau, blaenoriaethau a hawliau.

Datblygiad Personol / Proffesiynol:

Bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan mewn unrhyw raglen hyfforddi a weithredir gan y practis fel rhan o'r gyflogaeth hon. Bydd hyfforddiant o'r fath yn cynnwys:

- Cymryd rhan mewn adolygiad perfformiad unigol blynyddol, gan gynnwys cymryd cyfrifoldeb am gynnal cofnod o ddatblygiad personol a / neu broffesiynol ei hun.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad, eich dysgu a'ch perfformiad eich hun ac arddangos sgiliau a gweithgareddau i eraill sy'n ymgymryd â gwaith tebyg.

Ansawdd:

Bydd deiliad y swydd yn ymdrechu i gynnal ansawdd o fewn y practis, a bydd yn:

- Tynnu sylw aelodau eraill y tîm at faterion ansawdd a risg.
- Asesu'ch perfformiad eich hun a chymryd cyfrifoldeb dros eich gweithredoedd eich hun, naill ai'n uniongyrchol neu dan oruchwyliaeth.
- Cyfrannu at effeithiolrwydd y tîm trwy fyfyrion ar weithgareddau eich hun a gweithgareddau tîm a gwneud awgrymiadau ar ffyrdd o wella ac ychwanegu at berfformiad y tîm.
- Gweithio'n effeithiol gydag unigolion mewn asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion cleifion.
- Rheoli'ch amser, eich llwyth gwaith a'ch adnoddau yn effeithiol.

Cyfathrebu:

Dylai deiliad y swydd gydnabod pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol o fewn y tîm a bydd yn ymdrechu i:

- Gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau eraill y tîm.
- Gyfathrebu'n effeithiol â chleifion a gofalmwyr.
- Gydnabod anghenion pobl am ddulliau cyfathrebu amgen ac ymateb yn unol â hynny.

Cyfraniad at weithredu gwasanaethau:

Bydd deiliad y swydd yn:

- Cymhwyso polisiau, safonau a chanllawiau'r practis.
- Trafod gydag aelodau eraill y tîm sut y bydd y polisiau, y safonau a'r canllawiau yn effeithio ar eu gwaith eu hunain,
- Cymryd rhan mewn archwiliad/awdit lle bo'n briodol.

